



Abdi, o Nigeria

12 oed yw Abdi ac mae'n byw gyda'i ewythr yn ngogledd Nigeria. Mae ganddo epilepsi ac mae'n aml yn gorfod aros gartref o'r ysgol am ei fod yn cael trawiadau. Mae Abdi yn cael trafferth siarad, ond mae ei ewythr, Abdullah, yn ei ddeall yn dda iawn.



Meddai ewythr Abdi, "Roedd yn rhaid i dad Abdi fynd i weithio yn y ddinas a'i adael yn fy ngofal i. Roedd yn teimlo y byddai'n well gadael Abdi yn y pentref lle mae pawb yn hoff iawn ohono. Yn y ddinas, bydd Abdi wedi gorfod aros gartref drwy'r dydd ond fan hyn gall fynd i grwydro, cerdded i'r ysgol a chwarae pêl-droed gyda'r plant eraill.

Dechreuodd Abdi gael confylsiynau pan oedd ryw ddwy flwydd oed. Aethon ni ag ef at y meddyg a chafodd feddyginiaeth i wneud i'r pyliau daro yn llai aml. Mae Abdi yn trio mynd i'r ysgol leol bob dydd ond mae llawer o ddiwrnodau pan nad yw'n gallu mynd. Oherwydd ei broblem, nid yw wedi datblygu'n dda iawn, ac y mae'n dal i fod yn yr ail flwyddyn yn yr ysgol gynradd gyda disgyblion mor ifanc â 6 oed.

Rwy'n credu y byddai'n well iddo fynd i ysgol ar gyfer anghenion arbennig, ond does dim un gerllaw. Mae gan yr athrawes fan hyn bron i 40 o ddisgyblion yn ei dosbarth felly nid yw'n gallu rhoi'r sylw sydd ei angen arno ac nid yw wedi cael hyfforddiant i ddeall ei gyflwr.

Mae Abdi wrth ei fodd yn mynd i'r ysgol ac mae'n aml yn trio sôn wrth ei frawd am yr hyn mae wedi dysgu. Maen fachgen arbennig, ond mae angen gofal arbennig arno. Rwy'n gobeithio y gallwn ni ddwyn perswâd ar y llywodraeth i ofalu am Abdi yn y ffordd y mae'n haeddu."



Llun: © Kate Holt/Arete Stories/ActionAid

